Care & Repair Cymru

**Gwella** Cartrefi, **Newid** Bywydau




# **Eich Canllawiau ar Godi Arian**
ar gyfer Gofal a Thrwsio

www.careandrepair.org.uk

**DIOLCH YN FAWR IAWN** i chi am benderfynu codi arian ar gyfer Gofal a Thrwsio. Rydym yn dîm cyfeillgar a phroffesiynol sy'n angerddol am ein gwaith ac yn ymroddedig i gefnogi ein cyfranwyr a'n gwirfoddolwyr. Drwy godi arian i ni, byddwch yn helpu i wneud yn siŵr y caiff pobl hŷn yng Nghymru eu cefnogi i fyw'n annibynnol mewn cartrefi cynnes, diogel a hygyrch.

## Am Gofal a Thrwsio

Mae'r angen am gartref cynnes, cysurus ac sydd wedi'i addasu ar gyfer diogelwch yn ganolog i lesiant yr henoed. Mae tai ansawdd gwael yn achosi salwch a damweiniau ac mae prinder difrifol o dai ansawdd da ar gael i bobl hŷn yng Nghymru.

Mae Care & Repair Cymru yn cefnogi rhwydwaith Cymru-gyfan o asiantaethau Gofal a Thrwsio sy'n darparu datrysiadau sy'n canolbwyntio ar y cleient i wella ac addasu cartrefi. Drwy roi help ymarferol gallwn ostwng risg anafiadau o godymau, diogelu rhag canlyniadau tlodi tanwydd, atal adeiladwyr cowbois rhag cymryd mantais ar yr henoed a gostwng straen a phryder cynnal a chadw cartref.

**Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf fe wnaeth asiantaethau Gofal a Thrwsio:**



**Helpu 28,723** o bobl hŷn i fyw'n annibynnol mewn cartrefi cynnes, diogel a hygyrch.



**Helpu 1,728** gyda gwresogi a chynhesrwydd fforddiadwy.



**Helpu 15,577** o bobl gyda gwaith i atal baglu a chodymau



**Helpu 16,421** o bobl i addasu eu cartrefi.

Hwyluso atgyweiriadau cartref a gwaith cynnal a chadw yn werth **£12,598,417**

Credwn mewn Cymru lle gall pob person hŷn ddewis byw mewn cartref cynnes, diogel ac addas i'w anghenion. Ni allwn wneud i hyn ddigwydd ar ein pen ein hunain felly rydym yn gwahodd, annog a chefnogi meibion, merched, wyrion, ffrindiau, teuluoedd, ymwelwyr iechyd, busnesau a chymunedau cyfan i'n helpu i gyflawni'r weledigaeth hon.

Drwy godi arian ar ein cyfer byddwch yn helpu i wneud yn siŵr fod help ymarferol ar gael ar gyfer pobl hŷn yno pan fydd ei angen.

## Y gwahaniaeth a wnaiff eich gwaith codi arian:

**£50** **yn talu** am weithiwr achos i ymweld a chynnal asesiad o anghenion cartref

**£100** **yn talu** am chwilio am gyllid i ganfod arian ar gyfer gwaith adeiladu

**£200** **yn talu** am ddiwrnod o'n gwasanaeth tasgmon

**£300** **yn darparu** insiwleiddiad atig fydd yn cadw'r cartref yn gynnes a gostwng biliau ynni

**£2000** **yn talu** am foeler newydd a gwella iechyd a llesiant yn sylweddol

## Astudiaeth Achos:

"Pan ges ddod adre o'r ysbyty yn y diwedd ar ôl cael gwaedlif yr ymennydd, y cyfan roeddwn eisiau oedd cysgu yn fy ngwely fy hun. Fe safais ar waelod y grisiau a allwn i ddim cael fy ymennydd i weithio yn y ffordd arferol, wnâi fy nghoes chwith a fy nghoes dde ddim gweithio gyda'i gilydd. Diolch byth, daeth Gofal a Thrwsio y trannoeth a gosod canllaw. Fedrwn ni ddim bod wedi ymdopi hebddo. Mae'n helpu fy ngŵr gyda'i arthritis hefyd. Mae Gofal a Thrwsio wedi bod o gymorth mawr i ni gyda gwresogi, cyngor ar fudd-daliadau ac addasu'r tŷ fel ei bod yn ddiogel i ni. Mae'r ddau ohonom wedi gweithio ar hyd ein bywydau. Fe fydden ni'n hapus iawn i gefnogi Gofal a Thrwsio. Os na allwn ni edrych ar ein hôl ein hunain, yna sut gallwn ni edrych ar ôl pobl eraill?"

(*Marion, 61 oed - Ynys Môn*)




# Cychwyn Arni

Mae digonedd o ffyrdd hwyliog i godi arian, mae'r cyfan yn dibynnu ar beth y credwch fyddai'n gweithio i chi.

Os nad oes gennych ddigwyddiad dan sylw yn barod, dyma rai syniadau:

## Pethau y gallwch eu gwneud:

- Rhoi'r gorau i rywbeth – siwgr, alcohol, te, coffi, gyrru i'r gwaith, prynu dillad nad ydych eu hangen. Gallwch ofyn i noddwyr neu neilltuo'r arian y byddech wedi'i wario.
- Trefnu ffeirio dillad neu werthiant crefftau.
- Cymryd rhan mewn her noddedig neu her tîm.
- Ymuno â 'Gweu gyda'n Gilydd' noddedig a chymryd rhan mewn bom gweu.
- Cynnal parti/digwyddiad cynhesu'r tŷ yn eich cartref eich hun neu mewn lleoliad cymunedol.
- Trefnu cwis tafarn neu noson karaoke.
- Trefnu noson ar wedd rhaglen Come Dine with Me gyda grŵp o ffrindiau.
- Gwneud cymwynas, cynnig glanhau neu wneud neges i rywun a chodi ffi
- Cynnal ffair sborion/cist car
- Trefnu taith gerdded noddedig
- Trefnu digwyddiad e.e. arwerthiant, dawns te neu werthu teisennau.
- Gofyn i'ch cyflogwr gyfrannu diwrnod ychwanegol o wyliau i rywun a chynnal raffl i'w ennill.
- Trefnu raffl swyddfa.
- Gwneud llond sosban o gawl a'i werthu amser cinio.
- Rhoi blwch casglu yn y gweithle neu mewn siop leol.
- Manteisio ar gymhellion treth a chofrestru ar gyfer rhoi cyflogres.

I gael mwy o syniadau chwiliwch am 'charity fundraising ideas' ar Google, mae llwyth o syniadau yno!

# Bydd llwyddiant eich digwyddiad yn dibynnu ar gynllunio:

## Dyddiad a Lleoliad

Y cam cyntaf yw penderfynu ble a phryd y byddwch yn cynnal eich digwyddiad neu weithgaredd. Os ydych yn defnyddio adeilad cymunedol neu fusnes lleol holwch:

- Pryd mae ar gael.
- Faint o bobl a all fynychu.
- Pa gyfleusterau toiled sydd yno.
- Pa barcio sydd ar gael.
- Os oes angen trwydded ar gyfer unrhyw rai o'ch gweithgareddau.
- Beth yw'r weithdrefn ar gyfer diogelwch tân.

Mae bob amser yn werth dweud wrth y perchnogion os yw'n ddigwyddiad elusennol – efallai y byddant hyd yn oed yn rhoi disgownt neu ei roi am ddim.

Gwnewch yn siŵr fod gennych gynllun wrth gefn os ydych yn trefnu digwyddiad awyr agored.

## Gosod Targed Codi Arian

Gadewch i rywun wybod faint o arian y gobeithiwch ei godi a pham fod Care & Repair Cymru yn bwysig i chi. Mae nod yn eich helpu i gadw cymhelliant a bydd pobl yn fwy tebygol o gyfrannu i'ch helpu i'w gyrraedd.

## Sefydlu Tudalen Codi Arian Ar-lein

Y ffordd symlaf i godi arian noddi yw sefydlu tudalen cyfrannu ar-lein. Dim ond ychydig funudau y mae'n ei gymryd i sefydlu tudalen codi arian ar-lein ac mae'n gyflym a rhwydd ei rhannu gyda ffrindiau. Daw unrhyw arian a gesglir yn uniongyrchol a diogel atom ni felly nid yw'n rhaid i chi boeni am ei gasglu.

Mae gan Care & Repair Cymru dudalen Just Giving yn barod. Gallwch osod dolen tudalen ar ein tudalen yn:

**www.justgiving.com/careandrepair-cymru**
Mae digonedd o safleoedd ar-lein i ddewis o'u plith ac mae costau'n amrywio. Mae Money Saving Expert wedi gwneud ymchwil a allai eich helpu i benderfynu pa un i'w ddewis.

**www.moneysavingexpert.com/family/charity-fundraising-sites**
Peidiwch anghofio y gallwch rannu eich tudalen gyfrannu ar-lein yn rhwydd ar Twitter, Facebook neu e-bostio at ffrindiau. Gallwch hefyd ddweud eich stori eich hun am sut mae'ch hyfforddiant yn mynd gyda lluniau a negeseuon a newyddion rheolaidd.

## Noddi

Bydd rhai pobl eisiau eich cefnogi ond ni fyddant am gyfrannu ar-lein. Os hoffech gael ein ffurflen noddi, anfonwch gais at:
**fundraising@careandrepair.org.uk**

Gosodwch y bar yn uchel a cheisio gwneud yn siŵr fod y person cyntaf ar y ffurflen yn rhoi swm da ar gyfer eich noddi; gobeithio y bydd eraill yn dilyn yr arweiniad.

Mae'n syniad da mynd â'ch ffurflen noddi o amgylch gyda chi, wyddoch chi byth pryd y gallech gwrdd â rhywun fyddai'n hoffi eich cefnogi.

Gadewch i bawb wybod faint o arian y gobeithiwch ei godi a pham fod Gofal a Thrwsio yn bwysig i chi. Mae nod yn helpu i gadw cymhelliant a bydd pobl yn fwy awyddus i gyfrannu i'ch helpu i'w gyrraedd.

Peidiwch ofni atgoffa pobl eu bod wedi eich noddi a cheisio casglu'r arian cyn gynted ag sydd modd ar ôl y digwyddiad.



# Pethau pwysig y dylech eu gwybod



## Deunyddiau Codi Arian

Gallwch anfon tuniau casglu, crysau ti a thaflenni am Gofal a Thrwsio atoch. Anfonwch e-bost at **Sheleagh.llewellyn@careandrepair.org.uk** neu ffonio **029 2067 4830** i ofyn am ddeunyddiau.

## Gweiddi amdano

Mae'n wych eich bod yn codi arian hanfodol ar gyfer Gofal a Thrwsio felly peidiwch bod yn swil rhag dweud wrth bobl. Mae llawer o ffyrdd y gallwch roi cyhoeddusrwydd i'ch digwyddiad. Gallech gysylltu â'ch papur newydd neu orsaf radio lleol, defnyddio rhwydweithio cymdeithasol, codi posteri neu ofyn i ffrindiau ei rannu gyda'u rhwydweithiau hefyd. Gorau po fwyaf o bobl sy'n gwybod am eich codi arian. Gofiwch fod Care & Repair Cymru yn hapus i roi cyngor a chefnogaeth i'ch helpu i gael cyhoeddusrwydd.

## Holwch eich cyflogwr am arian cyfatebol

Holwch os oes gan eich cwmni gynllun arian cyfatebol. Am bob punt a godwch chi, efallai y byddent hwythau'n cyfrannu punt hefyd.

## Defnyddio brand/logo Gofal a Thrwsio

Rydym eisiau i bobl wybod ar gyfer pwy yr ydych yn codi arian a chynyddu ymwybyddiaeth am sut mae Gofal a Thrwsio yn helpu pobl hŷn. Rydym bob amser yn hapus i roi arweiniad ar sut a ble i ddefnyddio ein logo. Hoffem gymeradwyo deunyddiau lle caiff ein logo ei osod cyn ei ddefnyddio os gwelwch yn dda.

## Lluniau

Mae lluniau yn ffordd wych i roi cyhoeddusrwydd i godi arian a chael mwy o bobl i gymryd rhan. Gyda'ch caniatâd chi, byddwn yn rhannu lluniau ar ein gwefan, Facebook, Twitter a deunyddiau cyhoeddusrwydd eraill.

## Cadw'n ddiogel a chyfreithiol

Mae cyfreithiau am godi arian i elusen ac mae'n bwysig gwneud yn siŵr fod unrhyw ddigwyddiad neu weithgaredd a drefnwch yn ddiogel a chyfreithiol. Ni all Care & Repair Cymru dderbyn cyfrifoldeb am unrhyw golled, niwed neu anaf fel canlyniad i godi arian i ni. Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu eisiau gwirio unrhyw beth, cysylltwch â ni ar **029 20 674830** os gwelwch yn dda.

## Raffl a loteri

Mae raffl yn ffordd ddiogel ac effeithlon o godi arian. Fodd bynnag, yn dibynnu ar y math o raffl gallwch fod angen trwydded. Nid ydych angen trwydded pan nad y raffl yw prif ffocws eich digwyddiad. Mae'n rhaid gwerthu tocynnau a chyhoeddi"r canlyniad yn ystod y digwyddiad. Ni chaniateir gwario mwy na £500 ar wobrau, er nad oes terfyn ar swm y gwobrau y gellir eu cyfrannu. Ni ellir tynnu mwy na £100 o werthu tocynnau ar gyfer gorbenion. Os cynhaliwch raffl fwy lle gwerthir tocynnau dros gyfnod cyn tynnu'r raffl, mae'n rhaid cofrestru'r raffl gyda'r awdurdod lleol. Mae'n rhaid i chi gofrestru gyda'r Comisiwn Gamblo os yw gwerthiant tocynnau'n fwy na £20,000. Gan fod llawer o reolau ar loteri, byddem yn argymell eich bod yn siarad gyda'ch awdurdod trwyddedu i gael cyngor cyn trefnu un.

## Casgliadau

Nid yw Care & Repair Cymru yn cefnogi na'n cynnal casgliadau drws i ddrws neu stryd. Cefnogwn gasgliadau ar eiddo preifat felly cysylltwch â ni os hoffech drefn un.

## Glanweithdra Bwyd

Gwnewch yn siŵr y caiff bwyd ei storio, ei baratoi a'i goginio'n lanwaith. Mae canllawiau pellach ar **www.food.gov.uk**

## Trwyddedu

Byddwch angen trwydded os ydych eisiau gwerthu alcohol yn eich digwyddiad. Byddwch wedi eich cynnwys os oes gan y lleoliad drwydded, ond holwch. Os nad oes gan eich lleoliad Drwydded Adloniant Cyhoeddus ac os oes unrhyw ganu, dawnsio neu gerddoriaeth, gall fod yn rhaid i chi wneud cais i'ch awdurdod lleol am drwydded.

## Dywedwch diolch

Dywedwch diolch bob amser i ddangos wrth bobl sy'n helpu gyda chodi arian eu bod yn cael eu gwerthfawrogi.



# Ar ôl y Digwyddiad

Mae'n rhwydd iawn anfon yr arian atom ar ôl i chi godi eich cyfraniad at Gofal a Thrwsio.

Dilynwch ni ar: @CRCymru Care & Repair Cymru
www.careandrepair.org.uk

**Gwella** Cartrefi,
**Newid** Bywydau

## Casglu eich arian noddi

Peidiwch ofni atgoffa pobl eu bod wedi'ch noddi, a cheisiwch gasglu'r arian cyn gynted ag sy'n bosibl ar ôl y digwyddiad.

## Ar-lein

Mae hon yn ffordd gyflym a diogel i wneud eich cyfraniad. Ewch i'n gwefan **www.careandrepair.org.uk** a chlicio ar y botwm cyfrannu.

## Gyda siec

Gwnewch siec yn daladwy i **'Care & Repair Cymru'** a'i hanfon at **Care & Repair Cymru, 2 Ocean Way, Caerdydd CF24 5TG.** Mae'n bwysig cynnwys nodyn gyda'r siec yn cyfeirio at eich digwyddiad, yn dweud wrthym faint yw'r cyfanswm y gwnaethoch ei godi a gadael i ni wybod eich manylion fel y gallwn ddiolch i chi a chysylltu â chi eto yn y dyfodol.

## Talu mewn arian parod

Ni allwn brosesu taliadau arian parod. Os ydych wedi casglu arian parod bydd angen i chi ei fancio yn eich cyfrif eich hun a gwneud y taliadau i ni gyda siec neu drosglwyddiad banc.

## Cymorth Rhodd

Gallwn hawlio 25c am bob £1 a godwyd os gall eich cefnogwyr roi Cymorth Rhodd ar eu cyfraniad.

giftaid it

Bwriedir i'r pecyn hwn roi canllawiau sylfaenol ar godi arian. Byddem yn falch iawn i'ch helpu drwy gydol eich codi arian gyda chyngor, cyfeirio, deunyddiau ac arbenigedd. Mae croeso i chi ffonio unrhyw amser am help gydag unrhyw gwestiynau a all fod gennych. Ffoniwch Sheleagh, ein Swyddog Codi Arian, ar **02920674830**, e-bost **fundraising@careandrepair.org.uk** neu edrych ar dudalen Cymryd Rhan ar ein gwefan **www.careandrepair.org.uk** i gael mwy o wybodaeth.

## DIOLCH YN FAWR IAWN i chi am gefnogi Gofal a Thrwsio.

Bydd eich cyfraniadau yn helpu pobl hŷn yng Nghymru i fyw'n annibynnol mewn cartrefi cynnes, diogel ac addas ar gyfer eu hanghenion.

## Cadw mewn cysylltiad

Beth am ddod yn Gyfaill i Gofal a Thrwsio? Darllenwch y newyddion diweddaraf a derbyn ein cylchlythyr rheolaidd yn llawn straeon a syniadau. Mae'n rhwydd ymuno, ewch i'n gwefan yn

**www.careandrepair.org.uk**



Mae Care & Repair Cymru yn elusen gofrestredig: Rhif Elusen 1163542

Cefnogir gan Lywodraeth Cymru
Supported by Welsh Government